Pecyn Dogfennau

# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## DYDD IAU, 20 MEHEFIN 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd) **(Yn y Siambr)**

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | J.M. Charles | P. Cooper | M. Donoghue |
| J.K. Howell | A.C. Jones | B.D.J. Phillips | E. Skinner |
| R. Sparks | G.B. Thomas | M. Thomas | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| T. Davies | M.J.A. Lewis | A. Leyshon | D.E. Williams |
| S. Williams | | | |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd Hazel Evans mewn perthynas â chais cynllunio PL/02235 (Yn rhithwir)

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
H. Towns, Uwch Reolwr Datblygu a Gorfodi
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
L. Davies, Cyfieithydd ar y Pryd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP: 10:00yb – 11:25yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd:-**

| | |
|---|---|
| PL/02235 | **Un breswylfa newydd ar lain ger Gelli Rhifan, Rhos, Llandysul, SA44 5EE**<br><br>Cafwyd sylwadau gan yr Aelodau Lleol a oedd yn cefnogi'r cais ac yn ailbwysleisio'r pwyntiau yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a oedd yn cynnwys:<br><br>Byddai'r datblygiad yn:-<br>• diwallu anghenion y teulu<br>• cefnogi teulu sy'n dymuno aros yn yr ardal<br>• cefnogi'r ysgol leol<br><br>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd. |

## 4. ADRODDIAD APELIADAU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Apeliadau Cynllunio a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag apeliadau cynllunio a gyflwynwyd ar 7 Mehefin, 2024.

Mewn ymateb i sylw a gafwyd ynghylch y ffaith fod nifer yr apeliadau sy'n weddill yn cynyddu bob tro y cânt eu cyflwyno i'r Pwyllgor, eglurodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu a Gorfodi fod mwy o geisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno ac felly roedd mwy o benderfyniadau ar apeliadau'n cael eu gwneud o ganlyniad.

Nodwyd bod ôl-groniad yr apeliadau yn yr adroddiad wedi cael eu cyflwyno i PEDW sef Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i gychwyn ar y broses apelio. Yn dilyn hyn mynegwyd siom oherwydd y rheswm o bosibl dros y cynnydd yn nifer yr apeliadau yr adroddwyd amdanynt oedd PEDW. Ailadroddodd yr Uwch-swyddog Rheoli a Gorfodi fod mwy o apeliadau'n cael eu derbyn ac eglurodd fod pob achos yn cael ei bennu ar ei rinweddau ei hun gyda rhai yn fwy cymhleth nag eraill.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR

### 5.1. 23 MAI 2024

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi'i gynnal ar 23 Mai, 2024 gan eu bod yn gywir.**

**5.2. 4 MEHEFIN 2024**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi'i gynnal ar 4 Mehefin:, 2024 gan eu bod yn gywir.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | ________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol